1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 6**

# *Carfanau Pwyso 2: Dulliau Dylanwadu ac Effeithiolrwydd*

## Llawlyfr Gwaith

International Politics | Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# LLAWLYFR GWAITH

## CWESTIWN 1
**Adnabod Dulliau Dylanwadu Carfanau Mewnol**

Defnyddiwch eich gwybodaeth am ddulliau dylanwadu a statws carfanau o Adnodd 5 ac Adnodd 6. Rhestrwch chwe dull o ddylanwadu a ddefnyddir gan Garfanau Pwyso Mewnol.

| |
|---|
| 1: |
| 2: |
| 3: |
| 4: |
| 5: |
| 6: |

## CWESTIWN 2
## Adnabod Dulliau Dylanwadu Carfanau Allanol

Defnyddiwch eich gwybodaeth am ddulliau dylanwadu a statws carfanau o Adnodd 5 ac Adnodd 6. Rhestrwch chwe dull o ddylanwadu a ddefnyddir gan Garfanau Pwyso Allanol.

| |
|---|
| 1: |
| 2: |
| 3: |
| 4: |
| 5: |
| 6: |

## CWESTIWN 3
### Deall pwyntiau mynediad yng ngwleidyddiaeth Cymru

Darllenwch ddogfen Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar 'Sut i Lobïo Cynulliad Cenedlaethol Cymru' (yn Gymraeg). Mae'n ddogfen eithaf helaeth felly ceisiwch sgimio'r ddogfen i adnabod beth yw'r prif bwyntiau a chanolbwyntio ar y darnau sydd bwysicaf i ateb y cwestiynau isod.
https://www.wcva.org.uk/media/117464/how_to_lobby_w.pdf

1: Pa bwyntiau mynediad all carfanau pwyso eu defnyddio er mwyn ceisio cael dylanwad ar y Cynulliad?

2: Beth yw'r cyd-destun mae gofyn i garfan bwyso ei gymryd i ystyriaeth wrth fynd ati i baratoi i geisio dylanwadu o ran:

i: effaith cyd-destun mewnol y garfan ar ei gallu i gael dylanwad

ii: effaith y cyd-destun gwleidyddol ar ei gallu i gael dylanwad.

3: Ar sail darllen y wybodaeth hon, aseswch pa heriau ydych chi'n credu mae carfanau yn eu hwynebu wrth geisio dylanwadu ar y Senedd/Cynulliad a'r Llywodraeth yng Nghymru.

## CWESTIWN 4
### Ffactorau sy'n hwyluso neu gyfyngu ar lwyddiant carfanau

Ymchwiliwch i'r gwahanol garfanau yng ngholofn 1. Llenwch y wybodaeth yn y colofnau sy'n dilyn.

**Yng Ngholofn 2**, nodwch beth yw statws y garfan, carfan fewnol neu allanol.

**Yng ngholofn 3**, nodwch beth yw'r ffactorau all hybu llwyddiant carfan.

**Yng ngholofn 4**, nodwch y ffactorau all rwystro carfan rhag llwyddo.

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| **CARFAN** | **STATWS** | **FFACTORAU SY'N HELPU LLWYDDIANT** | **FFACTORAU ALL RWYSTRO LLWYDDIANT** |
| CND Cymru | | | |
| Stop the War Coalition | | | |
| League Against Cruel Sports | | | |
| Liberty | | | |
| Amnesty International | | | |
| Fathers 4 Justice | | | |
| Marie Stopes | | | |
| Society for the Protection of the Unborn Child | | | |
| Republic | | | |
| Freedom Organization for the Right to Enjoy Smoking Tobacco (FOREST) | | | |

**Manylion gwefannau'r carfanau i'ch dechrau ar eich ymchwil:**

http://www.cndcymru.org/

http://www.stopwar.org.uk/

https://www.league.org.uk/

https://www.liberty-human-rights.org.uk/

https://www.amnesty.org.uk/

http://www.fathers-4-justice.org/

https://www.mariestopes.org.uk/

https://www.spuc.org.uk/

https://www.republic.org.uk/

http://www.forestonline.org/

## CWESTIWN 5
## Perthynas Carfanau Pwyso a Democratiaeth yng Nghymru

> 'Generally, the academic literature highlights the many opportunities for Welsh civil society,* and the positive structures put in place to include and support it.'
>
> 'Several participants felt that some organisations were the 'go-to' organisations for certain policy areas, and found it difficult to get their voices heard or to gain funding from the government due to the dominance of these trusted organisations... these organisations are mostly ones which have worked with the Welsh Government in the past, and are simply those that are automatically considered as operating in their areas. More often than not, they are able to deliver activity on a Wales-wide basis.'
>
> 'The findings of this research show that, generally, organisations excercise choice and strategy in their scrutiny role, but few feel fully able to criticise government. This is not to say that Welsh Government funding is conditional upon the support of the organisation for all its aims. In fact, the government and also the National Assembly were steadfast in their belief that civil society organisations should be their critical friends and partners in policy development.'
>
> 'The difference between those who understand and engage with the Welsh governance framework and those who don't, presents a dilemma for asessing the state of civil society engagement in Wales. There are undoubtedly very positive and engaged people actively influencing and scrutinising the work of Welsh institutions. However, there is not a broad or deep enough pool of such professionals. Meanwhile, a significant number of other people feel disengaged, disillusioned and disregarded by the political and public sector institutions in Wales, either because they feel situated outside of the 'go-to' organisations or lack the right knowledge about how to engage.'
>
> Darnau o Rebecca Rumbul (2013) 'The Scrutiny Capacity of Civil Society in Wales' http://www.iwa.wales/click/wp-content/uploads/Chapter_10.pdf
>
> *Gellir deall 'cymdeithas sifil' fel term sy'n cynnwys carfanau pwyso.

Darllenwch y darnau uchod o adroddiad a gyhoeddwyd am gymdeithas sifil sy'n berthnasol i ddeall carfanau pwyso yng nghyd-destun datganoli i Gymru. Ar ôl gorffen darllen ceisiwch ateb y cwestiynau isod.

1: Beth yw rhai o'r heriau ymarferol mae carfanau pwyso yn eu hwynebu wrth geisio cael dylanwad?

2: I ba raddau mae'r gwahaniaethu rhwng carfanau mewnol ac allanol yn berthnasol ac yn ddefnyddiol wrth ystyried y dehongliad uchod o'r berthynas rhwng carfanau a'r llywodraeth yng Nghymru?

3: Beth yw goblygiadau'r sefyllfa a ddisgrifir o ran y berthynas rhwng carfanau pwyso a chyrff llywodraethol i ddemocratiaeth yng Nghymru?

## CWESTIWN 6
## Cyfraniad carfanau pwyso i ddemocratiaeth

| | |
|---|---|
| 1. Gall carfanau ddarparu cyfleon i ymwneud rhwng etholiadau, gan felly annog cyfranogaeth yn y system wleidyddol. | 2. Un o swyddogaethau carfanau yw craffu ar weithgaredd y llywodraeth gan dynnu sylw at arferion gwael, methiannau i wireddu amcanion polisi neu gamweinyddu. |
| 3. Mae carfanau pwyso yn cael eu hystyried fel arwydd o blwraliaeth mewn gwleidyddiaeth – sef eu bod yn helpu i gynrychioli'r holl ystod o farn gyhoeddus. | 4. Drwy ymwneud ym mhrosesau llunio polisi'r llywodraeth, mae perthynas agos carfanau yn golygu eu bod yn cael eu dal yn y penderfyniadau gyda gweinidogion a gweision sifil cyn i'r Senedd roi mewnbwn ar ran yr etholfraint yn ei chyfanrwydd. |
| 5. Dulliau anffurfiol a mwy cyfrinachol y tu ôl i ddrysau caeedig sy'n cael eu defnyddio i sicrhau llawer o ddylanwad mewn cyfarfodydd gweinidogol neu glybiau. Mae'r math hwn o weithredu yn gweddu i garfanau pwerus tra bod grwpiau gwannach yn gorfod dibynnu ar ddulliau dylanwadu ar y farn gyhoeddus. | 6. Mae rhai carfanau a'u cynrychiolwyr yn cael mynediad rhwyddach i rwydweithiau gwleidyddol ac i ddylanwadu ar bolisi na'r dinesydd cyffredin. |
| 7. Er bod carfanau ar wahân i'r pleidiau, gall agosrwydd atynt o ran perthynas rhwng unigolion roi'r cyfle i ddylanwadu'n sylweddol ar bolisïau a'r llywodraeth. | 8. Wrth roi sylw i faterion lleiafrifol, gan gynnwys hawliau lleiafrifol, mae carfanau'n gallu dod â mwy o gydbwysedd i ddemocratiaeth yn ei chyfanrwydd. |
| 9. Gall y lefelau isel o ddemocratiaeth fewnol o fewn rhai carfanau danseilio eu hygrededd. Nid ydynt yn aml yn cynrychioli eu haelodau ac nid oes prosesau democrataidd i ethol uwch staff. | 10. Gan eu bod yn hybu mwy o ymwneud efo'r rhai sy'n llywodraethu, mae carfanau pwyso yn atgyfnerthu cyfreithlondeb ac atebolrwydd y rhai sydd mewn grym. |
| 11. Y duedd yw i nifer helaeth o aelodau carfanau beidio gwneud rhyw lawer na chael fawr o ddylanwad ar bolisi na chyfeiriad y garfan. | 12. Wrth i bawb ddilyn eu hoff bynciau, gall pleidiau gael eu hamddifadu o'r unigolion ddylai fod yn ymuno â nhw er mwyn hyrwyddo gwleidyddiaeth fwy eang a phersbectifau mwy cytbwys. |
| 13. Drwy ganolbwyntio ar feysydd manwl a phenodol, mae carfanau pwyso yn ffynhonnell o wybodaeth arbenigol fydd wedyn yn gallu bwydo i brosesau llunio polisi. | 14. Gellir ystyried aelodaeth grwpiau fel 'elït' addysgedig a breintiedig. Y cyfoethog a'r pwerus sy'n manteisio ar y gallu i drefnu a chael dylanwad. Mae'r gwan a'r tlawd yn dibynnu ar garfanau gyda chyllid cyfyngedig. |
| 15. Gellir ystyried carfanau pwyso fel nodwedd allweddol i ryddid dinasyddion i drefnu gydag unigolion â barn gyffredin er mwyn i'w llais gael ei glywed a'i gymryd i ystyriaeth o fewn y llywodraeth. | 16. Mae carfanau yn fodd o wasgaru grym ac o wrthbwyso cyrff gweithredol a deddfwriaethol all fod yn orbwerus. |

Darllenwch y dadleuon uchod ac yna ceisiwch ateb y ddau gwestiwn sy'n dilyn.

1: Gwahaniaethwch rhwng y rhai sy'n tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol a negyddol carfanau pwyso i ddemocratiaeth.

2: Aseswch sut allech ddefnyddio'r dadleuon hyn i ateb cwestiwn traethawd: 'Ym mha ffyrdd y gellid dweud bod y carfanau pwyso yn cryfhau democratiaeth?' Lluniwch strwythur pwrpasol i ymateb i'r cwestiwn hwn.

**CWESTIWN 7**

Gan ddefnyddio enghreifftiau, trafodwch pa ffactorau sy'n cynorthwyo carfanau i lwyddo.

**CWESTIWN 8**

Ystyrir bod tueddiadau o ran lobïo amhriodol, bwlio, a llwgrwobrwyo gan garfanau mewnol yn cael ei weld yn tanseilio democratiaeth lawn cymaint os nad mwy nag unrhyw weithredu uniongyrchol. Trafodwch y dadleuon hyn.

**CWESTIWN 9**

Gwerthuswch y safbwynt nid yn unig fod carfanau pwyso yn ddymunol, ond eu bod yn angenrheidiol mewn democratiaeth iach ac yn llesol i ddemocratiaeth.